

# Cyngor Tref Pwllheli

---

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWDYD AM 6.30.y.h. NOS  
IAU 2 GORFFENAF 2015 YN SIAMBR Y CYNGOR, STRYD PENLAN, PWLLHELI

Cof;-0107/15 Presennol.

.....  
Y Maer, Cyng.M Sol Owen  
Cyng. E J Hughes,Elfed Gruffydd,Mici Plwm, Jonathan Roberts, Dewi O Jones,  
Alan Williams, Myrddin Owen.

Cof;-0207/15 Ymddiheuriadau.

.....  
Dirprwy Faer, Cyng Henry Williams (Gwyliau)  
Cyng Parch Ioan Gruffydd, Cyng Eric Wyn Roberts, Cyng. Iwan Edgar, Michael  
Parry,J G Owen

Cof;-0307/15 Datgan Diddordeb.

.....  
Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan diddordeb mewn materion oedd i'w trafod yn y  
cyfarfod.

Cof;-0407/15 Gair gan y Maer.

.....  
Adroddodd y Maer fod Pwyllgor Cyfeillion y Parc Sglefrio yn awyddus ar i'r Cyngor  
arwyddo cytundeb gyda hwy er mwyn gallu symud ymlaen i ddenu grantiau

Cyn arwyddo yr oedd angen astudio'r cytundeb a gyflwynwyd i'r Cyngor.

PENDERFYNIAD;- Y Maer a'r Clerc i'w astudio a rhoi adroddiad llawn i gyfarfod  
nesaf y Cyngor Tref ynghyd ac argymhellion o'r ffordd ymlaen.

Gwelir copi o adroddiad y Maer ar ddiwedd y Cofnodion.

Cod;-0507/15 Materion Cyfansoddiadol a Staff.

.....  
Nid oedd unrhyw fater i'w drafod.

Cof;-0607/15 Aelodau'r Cyhoedd yn bresennol.

.....  
Nid oedd unrhyw Aelod o'r cyhoedd na'r Wasg yn bresennol.

Cof;-0707/15 Cadarnhau Cofnodion Mis Mehefin.

.....  
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod Mis Mehefin fel rhai cywir a llofnodwyd hwy felly yn unol â'r gyfraith

Cof;-0807/15 Materion yn codi o'r cofnodion trwy ohebiaeth.

.....  
a) Treth Gyngor

Derbyniwyd ymateb i lythyr y Cyngor Tref i'r Cynulliad Cenedlaethol yn egluro, yn yr hinsawdd economaidd bresennol nad oes unrhyw godiad o gwbl yn y dreth Gyngor yn beth dymunol i bobl Cymru, er hynny rhaid i'r Awdurdodau Lleol gymryd i ystyriaeth yr angen ar alw am wasanaethau lleol.

Cyfrifoldeb pob Cyngor yng Nghymru yw pennu lefel ei dreth gyngor ac wrth wneud hynny mae ganddynt gyfrifoldeb dros ystyried cydbwysedd rhwng cadw gwasanaethau allweddol i gymunedau a chyfyngu ar y pwysau ariannol i drethdalwyr lleol,

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi pennu uchafswm cynnydd ar gyfer y dreth yn 2015-16 gan ei bod yn bwysig i'r penderfyniadau hynny gael ei gwneud gan Lywodraeth Leo lgan gymryd i ystyriaeth amgylchiadau lleol.

Nid yw grantiau rhewi'r dreth gyngor ond yn darparu cyllid sydd yn gyfatebol i godiad bach yn y dreth gyngor (1% yn Lloegr) sy'n dal i adael awdurdodau a phenderfyniadau gwario llym..Yn hytrach mae Llywodraeth Cymru'n sianelu cymaint o'r arian sydd ar gael á phosibl i brif setliad Llywodraeth Leol fel bod gan yr Awdurdodau lleol fwy o hyblygrwydd wrth ddyrannu cyllid i flaenoriaethau lleol.

Mae'n werth nodi fod y Dreth Gyngor yng Nghymru'n dal yn £156 yn is ar gyfartaledd na Lloegr.

# Cyngor Tref Pwllheli

---

Pan fydd arian ychwanegol yn dod i law yng Nghymru o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y DU i rewi'r dreth cyfrifldeb Gweinidogion Cymru yw penderfynu sut y caiff ei wario, mae'r cyllid a ddaeth i law wedi cynorthwyo, ymhlith pethau eraill i gefnogi mesurau i sbarduno economi yn unol â strategaeth economaidd hir dymor.

Nid yw refferenda treth gyngor yn gymwys yng Nghymru, nid yw trefniadau o'r fath yn caniatáu disgresiwn.

Mae yn bwysig nodi fod Arweinwyr Llywodraeth Leol yn cael ei hethol yn ddemocrataidd gan bobl leol i sicrhau bod anghenion lleol yn cael ei gynrychioli'n briodol a bod darpariaeth yn cael ei wneud ar ei gyfer, felly mae yn briodol mai hwy ddylai ysgwyddo'r cyfrifoldeb o bennu treth gyngor.

PENDERFYNIAD;-Derbyn yr wybodaeth.

## b) Gwarchodfa Lon Cob Bach

Adroddodd Swyddog Cyngor Gwynedd mai tîm Llwybr yr Arfordir sydd yn gyfrifol am y llwybr ac ar y funud maent o'r farn fod y llwybr mewn cyflwr boddhaol ac felly dim am ystyried rhoi sylw iddo am y tro.

Mae yn atgoffa'r Cyngor Tref for tros 3800 o lwybrau yng Ngwynedd a rhaid yw ceisio rhannu'r adnoddau mor ofalus â phosibl i geisio fod yn deg i bob cymuned.

PENDERFYNIAD;-Derbyn yr wybodaeth a gofyn i Gyngor Gwynedd gadw golwg ar y llwybr yn ystod tywydd gwlyb. A threfnu i gau'r tyllau.

Cof;-0907/15 Ceisiadau Cynllunio

.....  
a) Cais Rhif C15/0609/45/LL

Cais i dynnu amod 8 a 9 o ganiatâd cynllunio C12/.1395/45/LL sy'n ymwneud a chodi tai cynaliadwy.

PENDERFYNIAD;-Methu rhoi sylwadau gan nad oedd yr Aelodau yn sicr iawn o beth oedd amodau 8 a 9 a gofyn i Gyngor Gwynedd pan mae ceisiadau tebyg yn dod i law rhoi copi o'r amodau ynghlwm wrth y cais.

*( Ni fu i'r Cyng. M Sol Owen yr Aelod Lleol ar Gyngor Gwynedd gymeryd rhan yn y drafodaeth, y penderfyniad na phleidleisio ar y cynllun uchod)*

# Cyngor Tref Pwllheli

---

Cof;-1007/15 Llifogydd.

.....  
Nod oedd unrhyw beth i'w drafod.

Cof;-1107/15 Cofeb Cynan.

.....  
Adroddwyd fod pethau yn mynd symud ymlaen yn dda.  
Yn awr bydd agne plinth derw i osod y penddelw arno, nid yw'r Cyngor yn sicr a'i hwy ynteu'r contractwr sydd i drefnu hyn, ac felly addawodd Aelod o'r Cyngor wneud ymholiadau pellach

PENDERFYNIAD;- Derbyn yr wybodaeth.

Cof;-1207/15 Paentio Ffenestri'r Siambr.

.....  
Tynnwyd sylw gan Aelod fod ffenestri'r Siambr wir angen ei baentio cyn tymor yr Hydref

PENDERFYNIAD;- Rhoi hawl i'r Clerc wneud y trefniadau angenrheidiol.

Cof;-1307/15 Sedd Wag ar y Cyngor.

.....  
Gan na oedd enwau wedi dod i law addawodd y Clerc roi'r mater ar raglen cyfarfod nesaf y Cyngor Tref.

Cof;-1407/15 Mynwent Capel Deugorn.

.....  
Derbyniwyd er gwybodaeth oddi wrth Gyngor Gwynedd ohebiaeth yn egluro fod gwaith peirianyddol yn mynd yn ei flaen yn y fynwent i geisio sychu darn helaeth o dir sydd eto heb ei ddefnyddio.

Mae tir tu ôl i ddarn o'r fynwent a ddefnyddir yn draddodiadol gan y Pwyliaid, ond sydd ar hyn o bryd yn wlyb ac anaddas fel tir claddu, Yn dilyn arbrofion o'r tir gan arbenigwyr y bwriad yw tynnu'r tywyrch a chymysgu cerrig gyda'r isbridd, wedyn lefelu a hadu'r wyneb.

Ni fydd y rhan yma o'r fynwent ar gael i'w defnyddio am ryw flwyddyn tra bod y pridd newydd yn setlo.

PENDERFYNIAD;-Derbyn yr wybodaeth.

## Cyngor Tref Pwllheli

---

Cof;- 1507/15 Ail Strwythuro Gwasanaeth Cofrestru.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth adran Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd yn hysbysu'r Cyngor o ail strwythuro'r gwasanaeth Cofrestru yn Nwyfor a Meirionydd oherwydd gostyngiad sylweddol yn ei cyllideb, Ar hyn y bryd cynigir gwasanaeth dyddiol yn Swyddfeydd Ffordd y Cob a Phenarlâg Dolgellau a gwasanaeth am ddwy awr yr wythnos fel bo'r galw yng Nghanolfan Hamdden Bala a Llyfrgelloedd Tywyn a Porthmadog

Bydd y ddarpariaeth ddiwygiedig yn Swyddfa cofrestru Pwllheli a Phorthmadog yn ddigonol i ddiwallu'r galw sydd yn y ddau leoliad ac i ymgymryd â'r niferoedd isel o gofrestru a wneir yn y tair gorsaf allanol ar hyn o bryd.

Bydd cyflwyno'r trefniant newydd o'r 1 Hydref 2015.

PENDERFYNIAD;-Derbyn yr wybodaeth.

Cof;- 1607/15 Cais am drwydded eiddo.

Derbyniodd y Cyngor er gwybodaeth gopi o gais am drwydded eiddo gan Blas Heli, Glanydon.

PENDERFYNIAD;-Dim gwrthwynebiad.

Cof;-1707/15 Lluniau Cyn Meiri.

Derbyniodd y Cyngor 3 llun o Gyn Meiri'r Dref, .Yr Aelod a'i cyflwynodd i'r Cyngor Yn absennol o'r cyfarfod.

PENDERFYNIAD; Rhoi'r mater ar raglen nesaf y Cyngor Tref.

Adroddwyd ymhellach fod yr albwm o Gyn Meiri'r Dref wedi mynd i dipyn o stad ac felly bu i'r Cyng. E J Hughes ymgymryd â'r gwaith o'i uwchraddio a'i dacluso ac adroddodd fod yr albwm bron yn barod ond ei fod angen rhyw 3 neu 4 llun eto i'w gwblhau., ac yn gobeithio gallu ei gyflwyno i'r Cyngor yn ei newydd wedd yn ei gyfarfod Mis Medi.

PENDERFYNIAD;- Derbyn yr adroddiad a diolch i'r Cyng. E J Hughes am ymgymryd ar dasg gymhleth yma.

## Cyngor Tref Pwllheli

---

Cof;-1807/15 Gweithdy Ymgynghoriad Dyfodol Llyfrgelloedd.

Derbyniwyd gwahoddiad i ethol dau gynrychiolydd i fynd i weithdy ym Mhorthmadog ar y 15 Gorffennaf i gael rhannu gwybodaeth am gyd-destun a chefnidir yr adolygiad a rhannu gwybodaeth am y prif faterion sydd wedi codi yn ystod yr ymgynghoriad. Ynghyd ac ymchwilio pellach i'r opsiynau posibl a chlywed mwy am lyfrgelloedd cymunedol

PENDERFYNIAD;-Gwirfoddolodd y Cyng. Mici Plwm i gynrychioli'r Cyngor Tref yn y cyfarfod. Derbyniwyd ei gynnig gyda diolch.

Cof;-1907/15 Derbyniadau.

£ 250.00	Rhent Arced
£ 250.00	Rhent Arced
£ 3.08	Llog N S Bond
£ 5.18	Llog Cyfrif Uchel
£2050.00	Rhent 6 mis am y maes parcio
£4658.16	Ad daliad Treth ar Werth 201/15

PENDERFYNIAD;-Derbyn yr wybodaeth.

Cof;-2007/15 Taliadau.

£2422.70	Bryan Williams - Trwsio Cadwyn y Maer a'r Faeres	202674
£ 202.44	Trydan y Siambr	D.D.
£ 50.00	Mrs G Roberts- Glanhau'r Siambr	202675
£ 292.35	Cyllid y Wlad - (PAYE)	202676
£ 840.00	Atkin Groundwrks – cynnal llwybrau – 2ail doriad	202680
£ 35.70	Bocs i gadw medalau'r Maer	202679
£ 11.62	Kon X Wales - Llun gopïo	202681
£ 128.99	Cyfrifiaduron Llŷn	202682

PENDERFYNIAD;-Derbyn yr wybodaeth a rhoi hawl i'r Clerc dalu'r oll o'r biliau

Daeth y cyfarfod i ben am;- 7.30y.h.

# Cyngor Tref Pwllheli

---

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref Nos Iau 3 Medi 2015.

Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau ar y 24 Awst 2015.

---